

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr David Lloyd Williams (Llanefydd). Bu'n flaenor am dros 40 o flynyddoedd a diolchwn am yr hyn a fu i'w deulu, i'r capel yn Llanefydd ac i'r Ofalaeth, yn ogystal ag i fywyd yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Falmi, Sioned, Angharad a Catrin a gweddill y teulu, wrth inni gofio gydag anwylded amdano. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Rhiannon Evans (Llansannan) sydd wedi colli ei brawd, Tecwyn. Cofiw'n amdani hithau a gweddill y teulu yn eu profedigaeth, gan eu cyflwyno yn dyner i ofal a thangnefedd Duw.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Doreen Evans (Tanyfron) ac yn disgwyl y bydd wedi cael llawdriniaeth erbyn i chi ddarllen y neges yma. Yno hefyd ers ychydig ddyddiau y mae Jane Williams (Llansannan), ac mae Menna Owen (Cefn Meiriadog) yn parhau i gael gofal yno. Bu'n rhaid i Eirianwen Martin (Nantglyn) dreulio peth amser yn yr ysbyty hefyd yn dilyn anffawd dros y Nadolig a thorri ei garddwrn. Cyflwynwn y pedair a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrandu'n gweddiâu, ac am yr addewid O'i ffyddlondeb.
- Parhawn i gofio am eraill o'n plith sy'n hiraethu am anwyliaid ac eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd, gan ddiolch i Dduw am eu cynnal a'u cysuro yn eu hangen. Gweddiwn y byddant oll yn profi Duw yn ddigon yn ystod y flwyddyn newydd hon.

Mwy o roddion

Eleni eto, penderfynodd chwirydd Peniel roi cyfraniad i elusen yn hytrach nag anfon cardiau nadolig i'w ffrindiau a chymdogion yn lleol. Casglwyd £170 tuag at Ward y Plant Ysbyty Gobowen. Diolch am eich haelioni.

I ddo

- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Cefn Meiriadog** nos Fawrth, Ionawr 17eg am 7:00 o'r gloch gyda'r Parchg Ddr Geraint Tudur yn pregethu.
- **Cyfarfod Eglwys i aelodau Tanyfron** i ddilyn yr oedfa pnaawn Sul, Ionawr 22ain.
- **Cyfarfod Gweddi** yn y Granar, Llansannan nos Fawrth, Ionawr 24ain am 7.30 pryd y bydd cyfle i aelodau Capel Hiraethog ethol mwy o ddiaconiaid.
- **Aduniad Souled Out** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 27ain -29ain.
- **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan nos Sul, Ionawr 29ain pryd y bydd Clyde a Jan Briggs yn rhoi cyflwyniad i waith *Open Doors UK*, elusen Gristnogol sy'n gwasanaethu Cristnogion sy'n cael eu herlid mewn gwledydd eraill.
- **Penwythnos i blant Gofalaeth Bro Aled rhwng 8-11 oed yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 3ydd-5ed. Cost: £55 y plentyn a £27.50 ar gyfer ail plentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £10 i bob plentyn o'r Ofalaeth. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r coleg erbyn Ionawr 16eg. Ffurflenni a mwy o wybodaeth ar gael gan Rhodri (01745 870522 / 07814 660291).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Ionawr 2012

Ei gyhoeddi ef yr ydym ni, gan rybuddio pawb, a dysgu pawb ym mhob doethineb, er mwyn cyflwyno pob un yn gyflawn yng Nghrist. (Col. 1:28)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i bawb ohonoch i'r gwasanaethau heddiw. Dyma fy nghyfle cyntaf i ddyddyn newydd llawn bendith i bawb ohonoch nad ydwyf wedi eu gweld yn barod! Ar gychwyn blwyddyn newydd, beth am i ni ymroi o'r newydd i weddio y bydd Duw yn ei drugaredd yn gweithio'n rymus ynom trwy ei Ysbryd, ac y bydd 2012 yn flwyddyn arbennig nid oherwydd y Gemau Olympaidd nac unrhyw ddigwyddiad arall, ond yn hytrach oherwydd yr effeithiau clir o ras Duw ar ein bywydau ni a'n cydnabod?

Rhyw wythnos digon od yw'r wythnos gyntaf ym mis Ionawr ynte? Dwi'n siŵr fod nifer ohonom yn edrych yn ôl yn hiraethu ar yr ymlacio o flaen y tân, y gwylio rhaglenni teledu sâl, bod gyda'r teulu, a'r gwahanol fwydydd na fyddwn yn eu cyffwrdd eto am flwyddyn gron! (Oes yna unrhyw un yn dal i fwyta mins peis ym mis Chwefror?!) Ond ochr yn ochr â hyn mae'r sylweddoliad fod diwedd sydyn yn dod i'r gwyliau hwnnw, ac y bydd rhaid dychwelyd at y gwaith a'r cyfrifoldebau sy'n rhan o drefn arferol bywyd ymhen dim o dro. Mae realiti bywyd bob dydd yn gallu bod yn anodd ei wynebu'r adeg hon o'r flwyddyn, ac mae'n ddigon hawdd i ni ddigalonni wrth feddwl am yr hyn fydd o'n blaenau am y misoedd nesaf. Ond, trwy fyfyrto ar Air Duw, gwelwn fod gennym Dduw sydd yn ein caru'n angerddol, ac nad yw'n Harglwydd wedi ein gadael i wynebu bywyd anobeithiol ar ein pen ein hunain. Nid yw Duw yn cysgu nac yn huno - Ef yw ein Ceidwad (yr un sy'n gofalu amdanom), felly beth bynnag ddaw i'n bywyd ni eleni, gallwn fod yn sicr fod ein Harglwydd yn gweld y cwbl, ac am ein nerthu wrth i ni bwysu arno. Hefyd, wrth i ni fynd yn ôl at ein swyddi a'n gwaith, dylem gael ein hatgoffa fod lesu wedi cyflawni'r gwaith pwysicaf un wrth farw ar y groes, '*un waith am byth, dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw.*' (1 Pedr 3:18) Oherwydd hynny, faint bynnag o faich neu bwysau sydd arnom wrth ddychwelyd at ein gwaith, gallwn lawenhau nad gweithio i ennill ffafr Duw na bywyd tragwyddol yr ydym, gan fod hynny oll yn rhodd ryfeddol i bawb sydd â'u ffydd yng Nghrist. Diolch Iddo byth am gofio llwch y llawr!

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yn Llanefydd am 7.30. **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30. Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15. **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- Gwener **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn **Gweithwyr Dedwydd** – Diwrnod i weithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yng Ngholeg y Bala o 10.30 – 3.00. Cost: £5 (Dewch â chinio efo chi.) Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01678 520565.
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher Cynhelir Cyfarfod Pregethu Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Soar, Llanfair am 7.00 gyda Mr Tom I. Williams, Dinbych yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Llun Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod yn y Ffestri am 7.30 gyda Rhys Dafis yn rhannu hanes ei daith i'r Himalayas.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30.
- Iau Bydd Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Eglwys Groes, Peniel a Nantglyn yn Groes am 7.30 gyda Mr Geraint Jones, Betws Gwerfyl Goch yn siarad am y Gwasanaeth Prawf.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Eglwys Groes, Peniel a Nantglyn yn Groes am 7.30 gyda Mr Geraint Jones, Betws Gwerfyl Goch yn siarad am y Gwasanaeth Prawf.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma *SYLWER* Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa undebol yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Eglwys Groes, Peniel a Nantglyn yn Groes am 7.30 gyda Mr Geraint Jones, Betws Gwerfyl Goch yn siarad am y Gwasanaeth Prawf.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain a Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.